

---

# EICH ADDEWID EICH PLANED

---

PECYN CYMORTH  
YMGYSYLLTU  
CORFFORAETHOL


Byddwch yn rhan o'r mudiad  
mwyaf yn y byd i warchod y blaned

[#PromiseForThePlanet](#)



8.30PM AR  
24 MAWRTH

AWR  
DDAEAR



RYDYN NI EISIAU ICHI



GYMRYD RHAN  
A GWNEUD  
ADDEWID



BYDD

CANNOEDD O  
FILIYNAU



8.30PM

AR

NOS SADWRN

24

MAWRTH

YN DIFFODD

EU

GOLEUADAU



AM AWR

I NEWID

UN

PETH I  
HELPU EIN



# BETH YW AWR DDAEAR WWF?

**Mae Awr Ddaear WWF yn fudiad byd-eang i warchod ein planed** ac mae cannoedd o filiynau o bobl o gwmpas y byd yn cymryd rhan bob blwyddyn. **Y llynedd cymerodd oddeutu 9 miliwn ran yn y Deyrnas Unedig yn unig.**

Mae pobl yn gwneud amrywiaeth fawr o bethau o gwmpas yr awr i ddangos eu bod nhw'n malio am ddyfodol ein planed. Mae miliynau'n dewis nodi Awr Ddaear trwy **ddiffodd eu goleuadau am 60 munud am 8.30pm** – arddangosiad symbolaidd o gefnogaeth i'r blaned. Mae tirnodau mwyaf y byd – fel Tŷ Opera Sydney, Tŵr Eiffel, Palas Buckingham a Chastell Caeredin – yn cymryd rhan bob blwyddyn. Y llynedd yng Nghymru, diffoddodd yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, Stadiwm Principality, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Chastell Caernarfon eu goleuadau i ddangos cefnogaeth.

Eleni, rydyn ni'n gofyn i unigolion – a busnesau – fynd ymhellach na hyn hyd yn oed a **gwneud addewid am y blaned.**

## PAM?

Mae'n adeg dyngedfennol i warchod y blaned sy'n gartref inni. Ni yw'r genhedlaeth gyntaf i gael profiad o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd – a'r olaf i allu ei atal. Rydyn ni'n gweld ein moroedd yn cael eu hysbeilio a'u mygu gan blastig a'r bwyd a fwydawn yn dinistrio ein coedwigoedd a chynefinoedd hanfodol.

Mae llawer o'r bywyd gwyllt a garwn, o lewpardiaid yr eira ac eirth gwynion i rinoserosiaid ac elffantod, hefyd o dan fygythiad difrifol gan y pwysau rydyn ni'n eu rhoi ar ein planed. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn golygu bod un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl.

Mae ymchwil wedi dangos bod traean ohonom ni'n teimlo'n ddi-rym ynghylch materion amgylcheddol. Fodd bynnag, mae Awr Ddaear yn profi y gallwn, gyda'n gilydd, wneud gwahaniaeth. Mae'r atebion gennym ni; ond mae'n rhaid inni eu cyflawni.

**Mae'ch cefnogaeth chi i Awr Ddaear**, ac i waith WWF yn gyffredinol, wedi ein helpu i ddod o hyd i atebion i'r heriau amgylcheddol a wynebwn ledled y byd. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar bolisiau cenedlaethol ar yr hinsawdd, plannu coedwigoedd newydd yn Wganda, a gwahardd plastig yn Ynysoedd y Galapagos.



© BETINA SKOVBRO / WWF CYMRU

# FYDD EIN CEFNOGAETH NI'N GWNEUD GWAHANIAETH?



© DAN GREEN / WWF-UK(WALES)

Rydyn ni'n gweithio gyda busnesau ers amser hir, ac rydyn ni wir yn deall y rhan hanfodol maen nhw'n ei chwarae wrth arwain eu dinasoedd a'u cymunedau i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd a'r dylanwad y gall busnesau ei gael wrth ddarbwyllwyo prynwyr i wrando.

Mae Awr Ddaear WWF yn rhoi ichi gyfle unigryw i arwain drwy osod esiampl ym maes cynaliadwyedd, er enghraifft trwy fod yn rhan o ddigwyddiad byd-eang sy'n wirioneddol berthnasol i brynwyr – ac sy'n meithrin gwybodaeth a chefnogaeth i agwedd fwy ystyriol, gynaliadwy, foesebol at fywyd, sy'n rhoi'r blaned yn gyntaf.

Gyda'ch cymorth chi, gallwn fod yn wirioneddol uchelgeisiol a chael hyd yn oed mwy o bobl i gymryd rhan yn 2018.

Fel busnes, bydd cymryd rhan yn Awr Ddaear 2018:

- Yn tynnu sylw at y gwaith rydych yn ei wneud i fynd i'r afael â materion amgylcheddol allweddol – i'ch cynulleidfa chi ac i'n cynulleidfa ni
- Yn gweithio fel canolbwynt amlwg ar gyfer cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu â gweithwyr yn eich sefydliad i ddangos eich ymrwymiad i'r agenda cynaliadwyedd
- Yn creu sylw yn y cyfryngau lleol, cyfryngau masnach a'r cyfryngau cymdeithasol i'ch sefydliad os ydych chi'n gwneud addewid i'r busnes cyfan neu'n cynnal digwyddiad diffodd goleuadau. Mae gennym ni gyfres o asedau i'ch helpu i hyrwyddo'ch rhan yn yr ymgyrch.

**“TEIMLAI TRAEAN O'R RHEINY A  
GYMRODD RAN FOD CYFRANOGIAD  
PARTNER CORFFORAETHOL WEDI EU  
HANNOG NEU DDYLANWADU ARNYNT I  
GYMRYD RHAN YN AWR DDAEAR”**

**(AROLWG SYNERGEDD NFP, 2017)**

# SUT ALLWN NI GEFNOGI AWR DDAEAR?

## 1. ADDEWIDION:

Rydyn ni'n galw arnoch chi i newid o leiaf un peth yn eich bywyd pob dydd ac ym mywyd pob dydd eich cwmni a fydd yn helpu i warchod ein planed. Gwyddom fod effeithiau mawr yn dechrau gyda champau bach a bod gennym ni i gyd y pŵer i wneud gwahaniaeth.

Gallai fod yn addewid a wneuch fel busnes, neu'n un yr ydych yn annog eich gweithwyr i'w wneud gartref ac yn y gwaith.

Fel busnes, gallech ystyried troi'ch fflyd trafniadaeth yn gerbydau trydan erbyn dyddiad penodol neu gyflwyno cynllun cwpanau coffi aml dro. Gallech hefyd annog eich gweithwyr a / neu'ch cwsmeriaid i wneud #PromiseForThePlanet a'i gofnodi ar ein gwefan.

Fel unigolion, gallech benderfynu bwyta mwy o lysiau, peidio â defnyddio bagiau plastig, cario cwpan coffi aml dro neu hyd yn oed newid i gyflenwr ynni gwyrdd.



Rydyn ni wedi awgrymu saith addewid, ond nid yw'r rhain yn gyfyngedig, felly mae croeso ichi eu teilwra i'ch busnes chithau neu greu eich addewidion eich hunain:



**Byddaf yn gwrthod cyllyll, ffyrac a llwyau plastig gyda bwyd i fynd**



**Byddaf yn defnyddio cwpan coffi aml dro yn hytrach na rhai tafladwy**



**Byddaf yn golchi fy nillad ar 30 gradd**



**Byddaf yn prynu cerbyd trydan y tro nesaf y prynaf un**



**Byddaf yn aildefnyddio neu'n compostio sbarion bwyd**



**Byddai'n troi'n 'Hyblwytäwr' ac yn bwyta llai o gig**



**Byddaf yn newid i gyflenwr ynni gwyrdd**

Os hoffech gael rhagor o arweiniad neu gyngor gan WWF ar unrhyw strategaethau cynaliadwyedd ehangach yr ydych yn ystyried eu rhoi ar waith mewn cysylltiad â'r uchod – er enghraifft rhoi i'ch holl weithwyr gwpan aml dro WWF i ddal eu diodydd poeth, neu gynnig bwydleni llysiâu yn bennaf yn eich cantîn, cysylltwch â thîm Awr Ddaear ar [earthhourofficer4@wwf.org.uk](mailto:earthhourofficer4@wwf.org.uk).

## 2. DIFFODD Y GOLEUADAU

### GOFYNNWN ICHI YMUNO Â NI YN YR YMGYRCH FYD-EANG FLYNYDDOL I DDIFFODD GOLEUADAU AM 8.30PM AR NOS SADWRN 24 MAWRTH.

Bydd miloedd o dirnodau, sefydliadau, busnesau ac unigolion o gwmpas y byd yn diffodd eu goleuadau dianghenraid mewn arddangosiad gweledol o'u hymrwymiad i gyflawni'r newidiadau cadarnhaol mae ar ein byd eu hangen. Ymunwch â ni a diffoddwch eich goleuadau chithau.

Cofiwch roi gwybod inni ym mha adeiladau rydych chi'n diffodd y goleuadau fel y gallwn eu cynnwys yn ein cynlluniau ar gyfer y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol a'ch ychwanegu at ein map ar-lein. Cysylltwch â'n tîm Awr Ddaear ar [earthhourofficer4@wwf.org.uk](mailto:earthhourofficer4@wwf.org.uk).

## 3. SYNIADAU CREADIGOL AR GYFER YMGYSYLLTU ALLANOL A / NEU Â GWEITHWYR:

Trefnu bod **Awr Ddaear yn cymryd drosodd ymgysylltu â gweithwyr a chyfathrebu mewnol am yr wythnos cyn yr awr** gan gynnwys y syniadau canlynol –

#### GWAHODDWCHEICHPRIFWEITHREDWRIWNEUDADDEWID;

Ac anogwch eich holl staff i wneud yr un peth. Gofynnwch iddyn nhw lunio dyddiadur fideo neu flog bob wythnos a'i rannu gyda gweddill eich staff trwy'ch cylchlythyr mewnol

#### CWISADDEWIDION;

Rhannwch Gwis Addewidion gyda ffurflen gofnodi ar eich mewnwyd – gall WWF gynorthwyo â hyn gydag asedau a chwestiynau ac atebion

#### CYNNALCYSTADLEUAETHIROICWPANAUAMLDDRO BRANDWWFAMDIM;

Gofynnwch i'ch gweithwyr roi cynnig arni trwy gyflwyno eu Haddewid ynghyd â thri ffotograff sy'n dangos eu bod wedi ymrwymo iddo. Gallai'r rhain gynnwys lluniau o wrthod cyllyll, ffyrac a llwyau plastig lle maen nhw'n cael cinio'n lleol, neu feicio i'r gwaith. Mae'r syniad hwn hefyd yn creu cynnwys gwych i'w ddefnyddio'n fewnol ac ar gyfer eich wal Addewidion. Bydd y cwpanau aml dro ar gael i'w prynu o siop WWF ar [shop.wwf.org.uk](http://shop.wwf.org.uk) o 21 Chwefror ymlaen.

#### CREUWALADDEWIDION;

Crëwch un yn nerbynfa'ch Prif Swyddfa. Gwahoddwch weithwyr, gwesteion a phartneriaid i wneud Addewidion i warchod y blaned. Dangoswch enghreifftiau ar sgriniau mewnol – gall WWF ddarparu asedau

#### DANGOSFFILMAUWWFARSGRINIAUMEWNOL;

Mae ein ffilmiau'n dangos mewn modd pwerus effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar rywogaethau eiconig fel crwbanod môr, rhinoserosiaid a llewpardiaid hela

#### ARBEDWYRSGRINIAUCYFRIFIADURON;

Darparwch y rhain i'ch staff gyda negeseuon Awr Ddaear arnynt

#### STONDINAWRDDAEAR;

Gallwn ddod â phresenoldeb ffisegol WWF i'ch swyddfa gyda stondin Awr Ddaear i sôn am yr ymgyrch ac effaith y newid yn yr hinsawdd ar y blaned – cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb yn hyn

Mae gennym ni ddiddordeb mewn trafod syniadau newydd bob amser, ac rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi'r busnesau yr ydym yn gweithio gyda nhw a'n partneriaid corfforaethol. Os hoffech inni rannu syniadau allanol, boed creadigol neu'n ymwneud ag ymgysylltu â gweithwyr neu â chynaliadwyedd, sy'n benodol i'ch busnes chi, cysylltwch â thîm Awr Ddaear ar [earthhourofficer4@wwf.org.uk](mailto:earthhourofficer4@wwf.org.uk).

# YMUNWN NI. BETH YW'R CAMAU NESAF?

1. Rhowch wybod inni beth rydych chi'n bwriadu ei wneud a beth mae arnoch ei angen oddi wrthym ni i'ch helpu gyda hynny trwy gysylltu â thîm Awr Ddaear ar [earthhourofficer4@wwf.org.uk](mailto:earthhourofficer4@wwf.org.uk).
2. O ganol mis Chwefror ymlaen, gallwch lawrlwytho amrywiaeth fawr o adnoddau ac asedau creadigol i'w defnyddio o'n gwefan gan gynnwys lluniau clawr i'r cyfryngau cymdeithasol, baneri gwe, poster, cardiau post a thempledi cysylltiadau cyhoeddus. Gallwn greu logos pwrpasol gyda logo'ch cwmni chi ac un Awr Ddaear os cysylltwch â ni. Os hoffech gael neges hysbysu i roi gwybod ichi pryd mae'r asedau'n fyw ar ein gwefan, rhowch wybod inni.
3. Cadwch mewn cysylltiad trwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol:



## Y WASG

Os rhowch wybod inni y byddwch yn cymryd rhan yn Awr Ddaear 2018, byddwn yn eich cynnwys yn ein deunyddiau i'r wasg ac ar ein gwefan. Bob blwyddyn, mae'r wasg yn dod atom ni i holi am gyfleoedd rhanbarthol, felly os hoffech siarad â ni ynghylch hyn a chael eich ystyried, rhowch wybod inni.

Gallwn hefyd ddarparu dyfyniadau oddi wrth WWF i gydnabod eich cefnogaeth a gweithio gyda chi ar ddatganiad ar y cyd i'r wasg os yw hynny'n well gennych chi.



# COPI HYRWYDDO ENGHREIFFTIOL

## GOLYGWCH YR ISOD YN UNOL Â'CH ARDDULL A GOSLEF EICH LLAIS

Ar nos Sadwrn 24 Mawrth 2018 am 8.30pm, bydd <<enw'r busnes>> yn diffodd ein goleuadau yn <<enw'r lleoliad neu'r adeilad>> am awr i gefnogi Awr Ddaear WWF.

Bydd <<enw'r busnes>> yn ymuno â miliynau o bobl, dinasoedd, cymunedau a thirnodau o gwmpas y byd mewn arddangosiad gweledol byd-eang o ymrwymiad i fynd i'r afael â materion amgylcheddol sy'n galw am sylw ar frys ac i warchod ein planed.

Mae <<enw'r busnes>> hefyd yn gweithredu trwy wneud #PromiseForThePlanet i <<manyllion eich addewid>>. Mae ein gweithwyr hefyd yn cael eu hannog i wneud eu haddewidion eu hunain i newid un peth yn eu bywydau pob dydd a fydd yn helpu i warchod ein planed, o <<manyllion addewid un o'ch gweithwyr>> i <<manyllion addewid un o'ch gweithwyr>>. Rydym yn annog cymunedau lleol a phartneriaid yn <<enw'r dref, dinas yng Nghymru>> i wneud #PromiseForThePlanet ac ymuno â'r ymgyrch fyd-eang i ddiffodd goleuadau ar gyfer Awr Ddaear ar nos Sadwrn 24 Mawrth am 8.30pm. Ymunwch â ni wrth ddangos eich cefnogaeth i fyd mwy disglair, gwell a mwy cynaliadwy.

I gael mwy o wybodaeth ac i wneud addewid ewch i [www.wwf.org.uk/awrddaear](http://www.wwf.org.uk/awrddaear)



# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

## NEGSEUON ENGHREIFFTIOL AR GYFER FACEBOOK A LINKEDIN

Dangoswch eich ymrwymiad i warchod ein planed! Ymunwch â ni yn <<enw'r dref, dinas>> a diffoddwch eich goleuadau ar nos Sadwrn 24 Mawrth am 8.30pm ar gyfer #AwrDdaear WWF

### O 19 CHWEFROR YMLAEN YN UNIG:

Rydym ni'n gwarchod y blaned trwy wneud #PromiseForThePlanet ar gyfer #AwrDdaear WWF. Ymunwch â ni a gwnewch addewid ar [wwf.org.uk/awrddaear](http://wwf.org.uk/awrddaear)

Fel busnes, rydym wedi addo <<nodwch yr addewid>> ar gyfer #AwrDdaear WWF. Ymunwch â ni: [wwf.org.uk/awrddaear](http://wwf.org.uk/awrddaear) #PromiseForThePlanet

## TRYDARIADAU ENGHREIFFTIOL

Rydym yn cefnogi #AwrDdaear WWF ar nos Sadwrn 24 Mawrth am 8.30pm. Ymunwch â ni! Cewch wybod mwy ar [wwf.org.uk/awrddaear](http://wwf.org.uk/awrddaear)

### O 19 CHWEFROR YMLAEN YN UNIG:

Rydym yn gwarchod y blaned trwy wneud #PromiseForThePlanet ar gyfer #AwrDdaear WWF. Ymunwch â ni a rhannwch eich addewid ar [wwf.org.uk/awrddaear](http://wwf.org.uk/awrddaear)

### Dydd Gwener 23 Mawrth 2018

Cymerwch ran yn #AwrDdaear @WWFCymru yfory am 8.30pm. Diffoddwch eich goleuadau a dangoswch eich ymrwymiad i warchod ein byd! [wwf.org.uk/awrddaear](http://wwf.org.uk/awrddaear)

### Dydd Sadwrn 24 Mawrth 2018

Cofiwch ei bod hi'n #AwrDdaear @WWFCymru heno am 8.30pm! Gwnewch eich #PromiseForThePlanet ar [wwf.org.uk/awrddaear](http://wwf.org.uk/awrddaear)

Mae #AwrDdaear WWF yn fyw nawr! Ymunwch â ni wrth ddiffodd y goleuadau am awr a rhannwch eich #PromiseForThePlanet ar [wwf.org.uk/awrddaear](http://wwf.org.uk/awrddaear)



# ANGEN MWY O GYMORTH?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu syniadau neu os ydych eisiau rhannu'ch cynlluniau, byddem wrth ein bodd i glywed oddi wrthych chi. Cysylltwch â thîm Awr Ddaear:  
[earthhourofficer4@wwf.org.uk](mailto:earthhourofficer4@wwf.org.uk)

Diolch am eich cefnogaeth werthfawr.

## #AwrDdaear



© MARTIN HARVEY / WWF

8.30PM AR **AWR**  
24 MAWRTH **DDAEAR** 